

Arfarnwch yn feirniadol sut mae damcaniaethau allweddol yn cyfrannu at reolaeth dosbarth effeithiol.

Cyflwyniad

Bwriad y traethawd yma yw i arfarni'n feirniadol sut mae damcaniaethau allweddol yn cyfrannu tag at reolaeth dosbarth effeithiol. Gellir diffinio beth yw rheolaeth dosbarth. Nodwyd y Sutton Trust (2014) bod rheolaeth dosbarth yn ffyrdd o sut mae'r athro yn rheoli'r dosbarth a sut maent yn defnyddio'r ystafell wrth ddysgu. Nodwyd bod rheolaeth dosbarth yn ffordd i reoli ymddygiad plant gan ddefnyddio strategaethau gwahanol. Dywed, 'To manage students' behaviour with clear rules that are consistently enforced, are al maximising the learning that can take place.' (2014, t.3) Creda'r Sutton Trust felly bod yna strategaethau penodol sydd angen eu roi mewn lle er mwyn galluogi bod athrawon yn defnyddio rheolaeth dosbarth effeithiol. Cytuna Scrivener (2012) gyda hyn trwy ddweud, 'Your classroom management is the way you manage students' learning by organising and controlling what happens in your classroom.' (t.1)

Gwelwyd o hyn felly bod yna nifer o strategaethau sy'n cael ei ddefnyddio o fewn rheolaeth dosbarth effeithiol. Nodir bod yr amgylchedd dosbarth yn bwysig. Gwelir wrth arddangos gwaith plant o amgylch y dosbarth, ei bod yn cynyddu ei hunan-barch ac am weithio'n fwy i gael yr un canlyniad eto. Nodwyd bod angen gwneud yn siŵr bod diogelwch y plant yn bwysig trwy wneud yn siŵr bod pethau yn cael ei rhoi heibio ar ôl eu defnyddio. Gwelir bod ardaloedd dosbarth yn ffordd o reolaeth dosbarth effeithiol gan fod angen ystyried pob ardal a'u trefnu'n hwylus i'r plant yn ystod y dysgu. Ystyirir mwy o'r strategaethau hyn wrth ddamcaniaethwyr yn y traethawd.

Nodir y Sutton Trust (2014) bod angen chwe elfen benodol ar gyfer dysgu da. Y chwe a nodwyd yw:

1. Gwybodaeth am gynnwys
2. Ansawdd cyfarwyddiadau
3. Rheolaeth Dosbarth
4. Hinsawdd yr ystafell ddosbarth
5. Cred yr athro

6. Ymddygiad Proffesiynol

(2014, t.2- 3)

Gwelir o Sutton Trust (2014) bod rheolaeth dosbarth yn holl bwysig iddynt ac maent wedi'u leoli'n gymedrol yn ei rhestr o'r hyn sy'n gwneud dysgu da. Gwelir o hyn felly bod angen ystyried rheolaeth dosbarth effeithiol wrth ddysgu a bod angen gwneud yn siŵr os maent yn gweithio i bawb. Efallai bydd angen newid y rheolaeth ychydig yn dibynnu ar y plant ond angen cofio bod yn effeithiol os yn newid y rheolaeth dosbarth hefyd.

Nodwyd yr Education Reform (2011) bod yna ganlyniadau yn dod o reolaeth dosbarth a esboniwyd yr hyn all ddigwydd os nad oes rheolaeth dosbarth effeithiol gan athrawon. Dywed:

'Generally speaking, effective teachers tend to display strong classroom-management skills, while the hallmark of the inexperienced or less effective teacher is a disorderly classroom filled with students who are not working or paying attention.'

(2011, t.1)

Gwelir o hyn bod rheolaeth dosbarth effeithiol yn hanfodol os yw'r athro am gael rheolaeth gadarnhaol yn eu dosbarthiadau ac i wneud yn siŵr bod y dysgwyr yn mwynhau dysgu yn yr amgylchedd dysgu hynny.

O fewn yr aseiniad hwn, trafodwyd yr ymagwedd ymddygiadol a'r ymagwedd ddwyneiddiol o fewn reolaeth dosbarth.

Ymagwedd ymddygiadol

Nodwyd bod ymddygiad yn cael ei ddysgu o'r amgylchedd yn lle'r proses gwybyddol. Gwelir bod ymddygiad yn gallu cael ei haddasu trwy gyflyru a nodwyd bod yn ddwy fath o gyflyru sef cyflyru clasurol a chyflyru gweithredol. Nodwyd Andover (2013) bod cyflyru clasurol yn broses lle mae'r ymddygiad ynghlwm gyda symbyliad penodol. Nodwyd hefyd bod y damcaniaethwr Pavlov wedi defnyddio strategaeth o gyflyru clasurol gyda chŵn. Dangoswyd ei bod yn defnyddio bwyd y cŵn a chloch i ddangos i'r cŵn ei bod yn amser bwyd. Dengys hefyd, gan fod y cŵn wedi dod i'r arfer o gael bwyd wrth glywed y gloch, maent yn dechrau ailadrodd hyn ac yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd pan maent yn clywed y gloch pob tro. Enghraifft o hyn o fewn dosbarth neu ysgol yw pan fydd plant yn clywed y gloch ar yr iard chwarae, maent yn ymwybodol bod angen iddynt resi i fyny i fynd nôl mewn i'r dosbarth. Dengys hyn

bod athrawon yn defnyddio'r math o gyflyru yma i hyfforddi plant i ymddwyn mewn ffordd benodol. Enghraifft arall o gyflyru clasurol yn y dosbarth yw defnyddio cerddoriaeth benodol pan mae'n dod i dacluso ar ddiwedd gwersi. Gwelwyd gall athrawon hyfforddi'r plant i dacluso ar ôl gwers pan fydd y gerddoriaeth yn chwarae. Nodwyd math arall o gyflyru sef cyflyru gweithredol. Dywed Andover (2013) bod yna ddwy ran i gyflyru gweithredol sef atgyfnerthu a chosb. Nodwyd os bydd y plentyn yn derbyn atgyfnerthiad, bydd y plentyn yn ailadrodd yr ymddygiad hynny eto, ond wrth ddelio gyda chosb, ni fydd plentyn am ailadrodd yr ymddygiad hynny eto. Gwelwyd bod yr ymagwedd yma yn cyfateb gyda syniadau Skinner o ymddygiad. Nodwyd Richelle (1993) am waith Skinner. Dywed, 'Skinner's theoretical endeavour has mainly consisted in elaborating further the concept of psychology as the science of behaviour.' (t.8) Dengys hyn bod gwaith Skinner yn canolbwyntio ar ymddygiad yn bennaf. Nodwyd bod 'ei ymchwil yn dangos bod pob math o ymddygiad yn rhywbeth rydym yn ei ddysgu ac felly y gellid ei addasu.' (Hopwood et al, 2017, t.79) Dengys hefyd bod theori Skinner yn 'awgrymu y gellir atgyfnerthu gweithredu dymunol bositif trwy wobrwyo.' (Hopwood et al, 2017, t.79) Gwelir felly bod theori Skinner yn hanfodol wrth ystyried yr ymagwedd ymddygiadol. Gellir defnyddio'r syniad o gyflyru gweithredol a theori Skinner yn yr ystafell ddosbarth. Enghraifft o hyn y defnyddio sticeri neu siartiau i wobrwyo plant yn ystod y diwrnod os maent yn ymddwyn yn dda neu'n cyflwyno gwaith da i'r athro. Gwelwyd bod defnyddio sticeri fel ffordd o wobrwyo yn hyrwyddo'r ymddygiad dymunol ac yn osgoi'r ymddygiad annymunol. Nodwyd hefyd bydd y plant yn ailadrodd yr ymddygiad dymunol os maent yn cael ei gwobrwyo.

Er hyn, anghytunwyd Kohn (1994) gyda'r math o wobrwyo hyn. Dywed, 'When the rewards stop, people usually return to the way they acted before the program began.'(t.1) Nodwyd hyn os nad yw'r plant yn derbyn gwobr yn rheolaidd, bydd yr ymddygiad yn dechrau'n troi'n ymddygiad annymunol. Nodwyd Kohn (1993, cited in, Kohn, 1994) bod yna plant sy'n dewis tasg hawdd er mwyn medru derbyn gwobr. Dengys hyn ei bod yn gyflawniad addysgol ddim yn cael ei chyrraedd os maent yn dewis tasgau hawdd yn lle cymryd yr her a gwneud tasgau sydd yn deillio o'u gallu nhw neu'n fwy heriol. Gwelir y bydd hyn yn gwneud disgyblion yn falch os maent yn derbyn gwobr wrth wneud tasgau heriol yn lle dewis rhai hawdd, ac o ganlyniad i hyn efallai bydd eu cyflawniad addysgol yn cael ei chyrraedd.

Anghytuna Dweck (2007) gyda chanmoliaeth. Dywed, 'Praising students for their intelligence, then, hands them not motivation and resilience but a fixed mind-set with all its vulnerability.' (t.37) Nodwyd nad yw rhoi canmoliaeth o'u dealltwriaeth yn hybu plant i wneud yn dda eto. Nodwyd os mae athrawon yn cadw canmol plant am ei dealltwriaeth maent am gadw gwneud yn dda yn ei gwaith, ond gall hyn fod yn negyddol. Gwelwyd bod plant yn dechrau poeni gan eu bod am wneud yn dda yn eu gwaith er mwyn derbyn canmoliaeth, ond yn y pen draw gall hyn greu ochr negyddol at ddysgu. Nodwyd bod hyn yn gallu dod o unigolion sydd â meddylfryd sefydlog. Nodwyd bod y plant hyn yn gweld hi'n anodd gwneud tasgau anodd ac yn dewis tasgau hawdd er mwyn medru derbyn y ganmoliaeth, ond o hyn mae'r dysgu yn cael ei ddinistrio oherwydd os maent yn dewis tasgau anodd, ni fyddent yn dysgu llawer. Nid ydynt yn hoff iawn o wneud camgymeriadau ac felly wrth roi gwobr neu ganmoliaeth yn aml, bydd hyn yn hybu ymddygiad da ond ar y llaw arall gall y plant hyn golli allan ar rannau o'u dysgu.

Er hyn, gwelwyd Stipek (2010) bod rhoi canmoliaeth yn wael ar gyfer addysg plant. Nodwyd bod defnyddio canmoliaeth ar tasgau hawdd yn gallu dangos i'r plentyn nad yw'r athro yn ymwybodol o'u gallu addysgol. Dywed:

"Praise for successful performance on an easy task can be interpreted by a student as evidence that the teacher has a low perception of his or her ability. As a consequence, it can actually lower rather than enhance self-confidence. Criticism following poor performance can, under some circumstances, be interpreted as an indication of the teacher's high perception of the student's ability."

(Stipek (2010) *cited in* Coe, Aloisi, Higgins and Major (2014))

Dengys hyn bod angen peidio canmol plant yn rheolaidd yn enwedig pan mae'n dod i dasgau hawdd oherwydd efallai bydd y plentyn yn cael ei chanmol yn aml iawn ac nid yw'r plentyn yn cael ei chanmol o'u potensial llawn, a gall hyn effeithio ar hunanhyder y plentyn.

Enghraifft arall i sicrhau ymddygiad da yn yr ystafell ddosbarth yw defnyddio set o reolau penodol ac efallai i gael y plant i ddewis rheolau eu hunain a fydd yn hawdd iddynt ei ddilyn. Nodwyd bod Skinner wedi defnyddio anifeiliaid yn ei ddamcaniaeth ond trodd at edrych ar y datblygiad dynol o ran ymddygiad.

Nodwyd Llywodraeth Cymru (2012) bod yna nifer o strategaethau penodol i annog ymddygiad da yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd pwyntiau megis, 'have sanctions for misbehaviour, encourage respect and develop positive relationships.' (t.7) Dengys hyn bod angen i athrawon ystyried y pwyntiau hyn er mwyn medru defnyddio'r strategaethau o reolaeth dosbarth effeithiol.

Er bod Skinner yn ddiben i'r ymagwedd ymddygiadol, nodwyd Rudolph Dreikers ei syniadau ef o fewn yr ymagwedd ymddygiadol. Nodwyd bod disgyblion ac athrawon yn gyfartal a bod disgyblion yn cam-ymddwyn i deimlo eu bod yn perthyn. Nodwyd Messurier (2010) bod Dreikers wedi bendoi pedair rheswm pan fod plant yn cam-ymddwyn. Dywed, 'Typically there is a struggle for attention, power, revenge or a display of inadequacy.' (t.119) Gwelir o hyn, gan fod y disgybl a'r athro yn gyfartal yn ôl Dreikers, efallai os yw'r athro'n teimlo'n flin a bod y plentyn ddim yn talu sylw i'r athro, dengys ei bod am gael sylw wrthyn nhw yn lle'r athro. Gwelir o hyn bod angen rheoli'r ymddygiad yma gyda strategaethau rheolaeth dosbarth effeithiol er mwyn medru lleihau ar y mathau o gam-ymddwyn yma. Nodwyd Dreikers eu bod am ddefnyddio mesuriadau cefnogol i fedru rheoli'r ymddygiad gwael. Enghraifft o hyn o fewn ysgolion yw cyfarfodydd dosbarth neu amser cylch. Nodwyd bod cyfarfodydd dosbarth yn strategaeth effeithiol o reolaeth dosbarth ac yn ffordd o reoli ymddygiad plant. Gwelir wrth ddefnyddio cyfarfodydd dosbarth, mae'n gyfle i'r plant i fedru siarad am yr hyn sy'n eu poeni neu os oes mater wedi codi yn y dosbarth dros yr wythnos diwethaf. Nodwyd Marzano et al (2003) yn nodi bod defnyddio cofnodion yn helpu plant i ddeall eu hymddygiad. Dywed, 'It is the last suggestion involving journals that teachers can use to great advantage in helping students to understand their own behaviour.' (t.81) Dengys hyn bod plant yn gallu ysgrifennu'r hyn maent yn teimlo i lawr ac yn edrych nôl i edrych dros eu hymddygiad i fedru siarad amdani yn y cyfarfod dosbarth. Dengys y gall hyn helpu plant i wella'u hymddygiad. Cytuna Carol Dweck gyda syniadau Dreikers gan ei bod yn nodi bod angen mwy o bwyslais ar anogaeth yn lle canmoliaeth ar blant oherwydd gall hyn effeithio ar eu dysgu, fel y nodwyd yn gynharach.

Gwelir o'r ymagwedd ymddygiadol felly bod damcaniaethwyr ac athronwyr yn defnyddio strategaethau gwahanol i fedru helpu athrawon i gyfrannu tuag at reolaeth dosbarth effeithiol.

Ymagwedd dynol

Trafodwyd yn y rhan yma am yr ymagwedd ddynol. Nodwyd Lavay et al (2006) bod yr ymagwedd dynol yn edrych ar wahanol elfennau ymysg rheolaeth dosbarth.

Dywed, 'focuses on the development of self-concept, interpersonal relationships, intrinsic motivation, personal and social responsibility, and other qualities of good character.' (t.118) Dengys bod angen ystyried pob elfen dynol o'r plant er mwyn medru adnabod yr hyn sydd angen arnynt, pa elfennau sydd angen cymorth ac yna bydd y rheolaeth dosbarth yn fwy effeithiol os mae'r athro yn ymwybodol o elfennau dynol pob plentyn. Gwelir bod 'ymddygiad yn cael ei ddylanwadu gan berthnasau gwahanol ac maent yn ymateb i anghenion emosiynol pob unigolyn.' (Baggott, sesiwn 3, heb ei gyhoeddi)

Nodwyd bod yr ymagwedd dynol yn edrych ar y person- ganolog ond bod disgyblion yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain. Un damcaniaethwr sy'n hyrwyddo'r ymagwedd dynol yw Maslow. Nodwyd gan Netherfield Primary (2013) ei bod yn defnyddio nifer o strategaethau o'r ymagwedd ddynol i fedru helpu plant sydd angen y cymorth a chefnogaeth arnynt ac i gyrraedd nodau eu anghenion. Defnyddiwyd y broses o grwpiau anogaeth yn ei hysgol nhw. Dywed, 'Looking at their needs instead of changing those children.' Dengys hyn bod yr ysgol yn canolbwyntio ar roi cymorth i'r plant sydd ag anghenion yn lle ceisio newid y plant i fod yn bobl eraill. Gwelir, efallai bydd hyn yn creu problemau os bydd yr athrawon yn anwybyddu anghenion y plentyn ac yn ceisio newid y plentyn heb ystyried yr anghenion sydd gan y plant hynny. Dywed hefyd bod y syniad o grwpiau anogaeth yn edrych ar yr och emosiynol a chymdeithasol o blant er mwyn medru gwneud yn siŵr bod y plant yn teimlo'n gartrefol, yn gallu rhannu teimladau ac hefyd 'make sure the children are happy and settled. (Netherfield Primary, 2013)

Nodwyd Llywodraeth Cymru (2010) bod y syniad o grwpiau anogaeth yn helpu plant ddysgu mwy ac i weld cynnydd yn eu dysgu a'u sgiliau. Dywed, 'They also point to widespread improvement in pupils' self-management behaviours, social skills, self-awareness and confidence and skills for learning.' (t.8) Cytuna Llywodraeth Cymru felly gyda'r syniad o grwpiau anogaeth gan ei bod yn hybun plant i ddysgu sgiliau newydd ac i adeiladu ar y sgiliau hynny yn eu dysgu. Noda Estyn (2014) bod defnyddio grwpiau anogaeth o fewn ysgolion yn helpu plant i gyrraedd ei anghenion. Dywed:

‘use nurture groups to engage the families of vulnerable new learners – they create an environment that is welcoming, establishing rooms where children can learn with their families for a period.’

(Estyn, 2010, t.7)

Gwelir o hyn, cytuna Estyn gyda'r syniad o grwpiau anogaeth oherwydd mae'n rhoi'r cyfle i blant i weithio ar yr ochr cymdeithasol ac emosiynol. Nodwyd hefyd wrth gael rhieni yn rhan o'r grŵp, bydd hyn yn galluogi'r plant i deimlo'n fwy cartrefol ac efallai byddent yn teimlo'n fwy hyderus wrth gymdeithasu gydag eraill.

Gwelwyd hefyd ei bod yn defnyddio hierarchaeth Maslow yn ei hysgol er mwyn medru gofyn sut mae'r plentyn yn teimlo heddiw ac oes angen cymorth arnynt o fewn rhan benodol o'r hierarchaeth. Dyfeisiwyd Maslow yr hierarchaeth yn 1954 er mwyn ystyried cymhellion dynol. Rhannwyd yr hierarchaeth mewn i bum rhan sef anghenion ffisiolegol neu oroesi, anghenion diogelwch, anghenion cariad a pherthyn, anghenion parch a'r angen o hunan-wireddu.

Nodwyd Bergin et al (2012) yr hyn yr oedd Maslow am ddarganfod yn ei theori. Dywed, ‘Maslow wanted to know what makes people mentally healthy, rather than mentally ill.’ (t.42) Gwelir o hyn bod Maslow am ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ar bob i wneud nhw'n bobl iach a dyna pam dyfeisiwyd y hierarchaeth. Nodwyd Bergin et al (2012) hefyd bod strwythur gan Maslow o'r hierarchaeth. Dywed, ‘you students’ first concern is to fulfill the lowest level of unsatisfied need. When a need is met, it becomes unimportant, and the next level of need becomes pressing.’ (t.42) Nodwyd hyn felly, y creda Maslow bod angen symud lan yr hierarchaeth o'r gwaelod i'r pwynt uchaf. Dengys hefyd os nad yw anghenion y plant ddim yn cael eu chyrraedd, ni fyddent yn barod i symud i fyny ar yr hierarchaeth.

Gwelwyd enghraifft o'r hierarchaeth yn cael ei ddefnyddio o fewn ysgol ym Mhowys sy'n defnyddio syniadau Maslow yn ei ysgol goedwig. Er hyn, mae ysgolion coedwig yn helpu plant gyda'u anghenion. Nodwyd Forest School Training (dim dyddiad) bod yna nifer o elfennau ac anghenion sy'n cael eu chyrraedd trwy ysgolion coedwig. Dywed, ‘an increase in their self-belief, confidence, learning capacity, enthusiasm, communication and problem solving skills and emotional well-being.’ (t.1) Dengys hyn bod ysgolion coedwig yn syniad

bositif o ran ystyried anghenion plentyn a chael nhw i fod yn yr awyr adeiladu ar yr anghenion hynny. Gwelwyd o'r ysgol ym Mhowys ei bod yn defnyddio syniadau Maslow o'r hierarchaeth i wneud yn siwr bod anghenion gwaelod yr hierarchaeth yn cael ei cyrraedd i'r plant yn gyntaf cyn symud ymlaen y hierarchaeth ac at ddysgu uwch. Dywed, 'you design it to meet the needs of the group.' (t.1) Nodwyd hefyd ei bod yn defnyddio'r darn ffisiolegol yn gyntaf yn yr ysgolion coedwig er mwyn medru dysgu'r plant am yr anghenion hyn yn gyntaf cyn symud ymlaen. Dywed:

'Warmth – correct clothing provided

Food – Healthy snacks and meals

Drink – Hydrated water/ hot drinks

Safe – Individuals feel safe both physically and emotionally.'

(Forest schools, 2014)

Gwelir o hyn bod hierarchaeth Maslow yn cael ei ddefnyddio a'i hystyried wrth gynllunio, dysgu a rheoli plant yn effeithiol.

Anghytuna Baker et al (2014) gydag hierarchaeth Maslow. Dywed, 'Further, individuals may address more than one need at any one time and measuring these needs can be subjective.' (t.584) Dengys hyn bod angen i blant cymryd y camau anghenion un ar y tro oherwydd gall hyn effeithio ar anghenion nad ydynt wedi cwrdd ag eto os maent yn symud syth ymlaen i'r rhan nesaf. Gwelir bod angen i blant ddysgu o waelod yr hierarchaeth a symud cam wrth gam i'r rhan uchaf er mwyn dangos eu bod wedi deall os maent ei anghenion wedi'u cwrdd cyn symud ymlaen.

Gwelir o'r ymagwedd ddynol, bod gwaith Maslow o hyd yn cael ei ddefnyddio o fewn ysgolion er mwyn medru gwneud yn siŵr bod anghenion plant yn cael ei chyrraedd.

Casglwyd bod yna gwahanol ddamcaniaethau a damcaniaethwyr sydd o hyd yn cael ei ddefnyddio fel ffyrdd o reolaeth dosbarth effeithiol. Gwelwyd bod yr ymagwedd ymddygiadol o fewn ysgolion o hyd yn defnyddio syniadau Skinner o roi gwobrau i blant. Er hyn, efallai gall rhoi gormod o wobrwiau yn rheolaidd dechrau diflasu gyda rhai plant ac efallai gall athrawon defnyddio strategaeth arall o wobrwyo yn lle rhoi sticer neu ddefnyddio siartiau pob tro. Gwelwyd bod

amseroedd cylch a chyfarfodydd dosbarth yn ddefnyddiol fel strategaeth rheolaeth dosbarth effeithiol. Gwelir bod hyn yn galluogi plant i siarad am eu problemau a chael y cyfle i weithio ar yr ymddygiadau sy'n codi. Nodwyd bod angen gwneud yn siŵr nad yw athrawon yn canolbwyntio ar roi gormod o ganmoliaeth i blant. Gall hyn achosi'r plentyn i golli hunanhyder os maent yn cael ei ganmol ar yr hyn maent wedi gwneud sy'n hawdd cwblhau yn lle cael canmoliaeth ar yr hyn sydd wedi bod yn her iddynt i gwblhau a chyflawni. Gwelwyd o'r ymagwedd ddynol bod gwaith Maslow o hyd yn cael ei ddefnyddio yn enwedig mewn grwpiau anogaeth ac ysgolion coedwig. Gwelir bod ysgolion yn dysgu plant yr anghenion sylfaenol yn gyntaf cyn eu bod yn barod i symud ymlaen at y rhan nesaf yn yr hierarchaeth. Gwelir bod hyn yn ddamcaniaeth effeithiol o reolaeth dosbarth os yw'r athro yn ymwybodol o anghenion y plant a'r hyn maent yn cynllunio i fedru gwneud y plant i deimlo'n gartrefol yn yr ysgol a hefyd i weithio ar ochrau emosiynol a chymdeithasol y plentyn.

Rhestr Cyfeirnod

- Baggott, A. (2019) Darlith Rheolaeth Dosbarth. Wythnos 3. (heb ei gyhoeddi)
- Baker, H. et al. (2014) *Investor Behaviour. The Psychology of Financial Planning and Investing*. John Wiley and Sons Inc. New Jersey.
- Bergin, C. et al. (2012) *Child and Adolescent Development in Your Classroom*. Wadsworth. Cengage Learning.
- Coe, R. et al (2014) *What makes great teaching?* Available at <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf> [Accessed 03.05.2019]
- Dweck, C. (2007) *The Perils and Promises of Praise*. Educational Leadership, October 2007 (Vol. 65, #2, p. 34-39) Ar gael ar: <http://www.ascd.org/publications/educational-leadership/oct07/vol65/num02/The-Perils-and-Promises-of-Praise.aspx> (Accessed 04.05.2019)
- Estyn (2014) Pupil deprivation. Ar gael ar: <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Pupil%20deprivation%20-%20May%202014.pdf> (Accessed 08.05.2019)
- Forest School Training (dim dyddiad) *The Benefits*. Ar gael ar: <https://www.forestschoolltraining.co.uk/forest-school/the-benefits/> (Accessed 07.05.2019)
- Kohn, A. (1994) *The Risks of Rewards*. Ar gael ar: <https://www.alfiejohn.org/article/risks-rewards/> (Accessed 03.05.2019)
- Lavay, B. et al. (2006) *Positive Behaviour Management in Physical Activity Settings*. 2nd edition. Human Kinetics.
- Llywodraeth Cymru (2012) *Practical approaches to behaviour management in the classroom*. Ar gael ar: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/practical-approaches-to-behaviour-management-in-the-classroom-a-handbook-for-classroom-teachers-in-primary-schools.pdf> (Accessed 03.05.2019)
- Llywodraeth Cymru (2010) *Nurture groups: A handbook for schools*. Ar gael ar: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/nurture-groups-a-handbook-for-schools.pdf> (Accessed 08.05.2019)

- Marzano, R. et al. (2003) *Classroom Management that Works: Research-based Strategies for Every Teacher*. ASCD. Alexandria.
- Messurier, M. (2010) *Teaching Tough Kids: Simple Proven Strategies for Student Success*. Routledge. Oxon.
- Netherfield Primary (2013) *Nurture Groups*. [video] Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=d9ww93ceUyQ> (Accessed 07.05.2019)
- Richelle, M. (1993) *B.F. Skinner. A Reappraisal*. Taylor and Francis. London.
- Scrivener, J. (2012) *Classroom Management Techniques*. Cambridge University Press.
- Ysgol Gynradd Penygloddfa (2014) *Forest Schools*. Ar gael ar: http://www.penygloddfa.powys.sch.uk/en_GB/forest-schools/ (Accessed 07.05.2019)